

Hawdd ei Ddeall



Learning Disability Wales

Anabledd Dysgu Cymru

Anabledd Dysgu Cymru

Ein cynllun am 2019 i 2024



Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o **Gynllun Strategol 2019-2024**
Anabledd Dysgu Cymru.

Tachwedd 2019

Sut i gadw mewn cysylltiad â ni



Cyfeiriad: Anabledd Dysgu Cymru
41 Lambourne Crescent
Parc Busnes Caerdydd Llanisien
Caerdydd, CF14 5GG



Gwefan: www.ldw.org.uk



E-bost: enquiries@ldw.org.uk



Ffôn: 029 2068 1160



Twitter: @ldwales



Facebook: [learningdisabilitywales](https://www.facebook.com/learningdisabilitywales)

Ein cynllun ni.....	4
Ein gwerthoedd ni.....	5
Ein nodau ni.....	6
Ein blaenoriaethau ni.....	7
Ffeithiau allweddol.....	8
Deddfau a pholisïau yng Nghymru.....	10
Ein prosiectau ni.....	12
Beth rydyn ni'n ei wneud yn dda.....	14
Beth rydyn ni eisiau ei wneud nesaf.....	16
Gwranddo arnoch chi.....	18
Ein gwaith ni dros y 5 mlynedd nesaf.....	19
Ein partneriaid ni.....	27
Ein harian ni.....	28
Ein staff ni.....	30

Ein cynllun ni

Rydyn ni eisiau i Gymru fod y wlad orau yn y byd i bobl gydag anabledd dysgu:

- Byw
- Dysgu
- Gweithio



Mae'r cynllun yma yn dweud beth byddwn ni yn ei wneud dros y 5 mlynedd nesaf i helpu i wneud hyn i ddigwydd.

Ein gwerthoedd ni

**Y pethau hyn, rydyn ni'n meddwl,
yw'r pethau mwyaf pwysig mewn
bywyd**



Mae gennych chi hawl i:

- Cael eich gwerthfawrogi a'ch parchu chi



- Cael bywyd sydd yn llawn ystyr

- Dysgu ar hyd eich bywyd chi



- Cael eich cynnwys a chael llais

- Bod mewn rheolaeth o'ch bywyd chi



- Cael ffrindiau a chariadon

- Gwaith



- Rhoi rhywbeth yn ôl i'ch cymuned chi.

Ein nodau ni

I wneud Cymru y wlad orau yn y byd i bobl gydag anabledd dysgu rydyn ni eisiau:



- Addysg sydd yn gweithio i bawb ac sydd yn cynnwys pobl gydag anabledd dysgu.



- Lleoedd gwaith sydd yn cynnwys pobl gydag anabledd dysgu.



- Cymdeithas sydd yn parchu pobl gydag anabledd dysgu.



- Deddfau a chynlluniau sydd wedi cael eu **cydgynhyrchu** gan bobl gydag anabledd dysgu.

Mae **Cydgynhyrchu** yn meddwl bod pobl gydag anabledd dysgu yn cael eu cynnwys ym mhob penderfyniad. Maen nhw'n cael eu gweld yn gyfartal pan mae penderfyniadau'n cael eu gwneud.



- Pobl gydag anabledd dysgu i gael llais.

Ein blaenoriaethau ni

Y pethau hyn, rydyn ni'n meddwl,
yw'r pethau mwyaf pwysig i
ganolbwyntio arnyn nhw

Am y 2 flynedd nesaf fe fyddwn ni yn
canolbwyntio ar:



1. Iechyd a llesiant



2. Cyflogaeth



3. Addysg

Ffeithiau allweddol

Pethau pwysig i wybod amdany'n nhw



- Mae yna tua 15 mil o oedolion gydag anabledd dysgu yng Nghymru. Efallai bod 60 mil arall nad ydyn ni'n gwybod amdany'n nhw.



- Mae pobl gydag anabledd dysgu yn byw yn hirach nawr. Ac efallai bod ganddyn nhw fwy o anghenion cefnogi.



- Mae dros 100 mil o blant angen cefnogaeth ychwanegol i ddysgu. Mae gan nifer ohonyn nhw anabledd dysgu. Ac mae yna bron i 5 mil o ddisgyblion mewn ysgolion arbennig yng Nghymru.



- Does gan blant a phobl ifanc ddim llawer o ddewis gydag addysg.



- Does yna ddim cymaint o arian ar gyfer gwasanaethau nawr.



- Mae rhagor o bobl gydag anabledd dysgu yn byw'n annibynnol.



- Dydy cymdeithas ddim yn gwerthfawrogi ac yn parchu pobl gydag anabledd dysgu.



- Mae nifer o deuluoedd gyda phlentyn anabl yn dlawd iawn.



- Ychydig o bobl gydag anabledd dysgu sydd mewn gwaith.

Deddfau a pholisïau yng Nghymru

Yn ein holl waith ni fe fyddwn
ni yn meddwl am ddeddfau a
pholisïau pwysig

Er enghraifft:



- **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**



- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**



- **Deddf Tribiwnlys Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Addysg (Cymru) 2018**



- **Anabledd Dysgu – Rhaglen Gwella Bywydau 2018**



- **Ffyniant i bawb: cynllun gweithredu economaidd 2017**



- **Rhaglen Gwelliant 1000 o Fywydau,**



Fe fyddwn ni'n meddwl am sut rydyn ni'n gallu cael dweud sut mae deddfau a pholisiau yn cefnogi pobl gydag anabledd dysgu.

Ein prosiectau ni

Y prosiectau rydyn ni'n gweithio arnyn nhw nawr



Bywyd Gwerthfawr

Yn y prosiect yma rydyn ni yn:

- Rhannu gwybodaeth
- Trefnu hyfforddiant a digwyddiadau
- Siarad dros bobl gydag anabledd dysgu
- Darganfod ffyrdd newydd a'r ffyrdd gorau o weithio.



Engage to Change

Mae Engage to Change yn cefnogi pobl ifanc gydag anabledd dysgu ac/neu awtistiaeth i gael gwaith gyda chyflog.



Ffrindiau Gigiau

Mae Ffrindiau Gigiau yn cefnogi pobl gydag anabledd dysgu i fynd i ddigwyddiadau a gigiau.



Rhwydwaith Gweithio ar y cyd gyda Rhieni

Mae'r prosiect yma yn gweithio i wella'r gefnogaeth i rieni gydag anabledd dysgu.



Love Life

Mae Love Life yn cefnogi pobl gydag anabledd dysgu i hyfforddi pobl am berthnasoedd iach.



Senedd Ieuenctid Cymru

Mae Senedd Ieuenctid Cymru yn rhoi llais i bobl ifanc yng ngwleidyddiaeth Cymru. Rydyn ni'n cefnogi 2 berson ifanc anabl i gymryd rhan yn hyn.



Hawdd ei Ddeall Cymru

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru yn ysgrifennu ac yn dylunio gwybodaeth hawdd ei ddeall i lawer o wahanol gyrff



Rhedeg ein corff

Mae ein holl brosiectau ni yn cael eu cefnogi gan:

- Ein tîm cyllid ni sydd yn gofalu am yr arian
- Staff sydd yn edrych ar ôl sut mae'r holl gorff yn cael ei redeg.

Beth rydyn ni'n ei wneud yn dda



- Rydyn ni'n dod â phobl at ei gilydd yn ein cynhadledd flynyddol ni.



- Rydyn ni'n rhedeg hyfforddiant a digwyddiadau.



- Rydyn ni'n rhannu gwybodaeth am faterion pwysig.



- Rydyn ni'n gwneud yn siŵr bod pobl yn meddwl am bobl gydag anabledd dysgu pan maen nhw'n gwneud deddfau a pholisïau.



- Rydyn ni'n helpu pobl i wneud eu gwybodaeth yn hawdd i'w gael a'i ddarllen e.



- Rydyn ni'n ysgrifennu dogfennau hawdd eu deall.



- Rydyn ni'n gweithio gyda phartneriaid i rannu beth rydyn ni'n ei wybod.



- Rydyn ni'n dechrau prosiectau newydd a chyffrous i gefnogi pobl gydag anabledd dysgu.

Beth rydyn ni eisiau ei wneud nesaf



Rydyn ni eisiau:

- Gweithio ar 1 pwnc mawr bob blwyddyn



- Cael rhagor o bobl gydag anabledd dysgu i weithio yn Anabledd Dysgu Cymru



- Cael llawer o wahanol fathau o bobl ar ein Bwrdd Ymddiriedolwyr ni



- Newid ein delwedd ni a sut mae ein logo ni a'n gwefan ni yn edrych



- Gweithio gyda mwy o gymunedau ar draws Cymru



- Gweithio gyda mwy o bartneriaid i wneud i newid go iawn ddigwydd



- Creu mwy o brosiectau Ffrindiau Gigiau ar draws Cymru



- Cael dweud beth rydyn ni'n feddwl am bolisiau a deddfau yng Nghymru




- Edrych ar pa mor dda mae ein gwasanaethau ni yn gweithio



- Cael mwy o aelodau.

Gwranddo arnoch chi

Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr
ein bod ni'n gwybod beth sydd yn
bwysig i chi



Felly fe fyddwn ni yn:

- Cynnal digwyddiadau i weld beth sydd yn bwysig i chi



- Cynnig mwy i'n haelodau ni, a siarad â'n haelodau ni



- Trefnu rhwydweithiau i rannu syniadau a siarad am bethau pwysig



- Siarad â phobl ar y cyfryngau cymdeithasol fel Facebook a Twitter



- Cynnal digwyddiadau am bolisiau pwysig i chi gael dweud beth rydych chi'n feddwl.

**Ein gwaith
ni dros y 5
mlynedd
nesaf**

Y pethau rydyn ni eisiau ei wneud
ym mhob maes o'n gwaith ni



Polisi



Nawr

Ysgrifennu cynllun ar gyfer 1 darn mawr o waith
bob blwyddyn am y 3 blynedd nesaf.



Mewn 3 blynedd

Cael 2 swyddog polisi. 1 gydag anabledd dysgu.



Mewn 5 mlynedd

Gwneud darn o waith ymwybyddiaeth
cyhoeddus mawr.



Hyfforddiant a digwyddiadau



Nawr

Edrych ar ein hyfforddiant a'n digwyddiadau ni nawr.



Mewn 3 blynedd

Rhannu ffyrdd gorau o weithio yn ein cynhadledd flynyddol ni.



Mewn 5 mlynedd

Rhannu ffyrdd gorau o weithio yn ein cynhadledd flynyddol ni.



Cyfathrebu



Nawr

Edrych ar ein cyfathrebu ni nawr.



Mewn 3 blynedd

Cael person gydag anabledd dysgu yn gweithio inni ar ein cyfryngau cymdeithasol ni.



Ffrindiau Gigiau



Nawr

Cae cyllid i redeg y prosiect mewn 6 ardal yng Nghymru am 3 blynedd.



Mewn 3 blynedd

Gweithio mewn gwahanol ardaloedd yng Nghymru a bod pawb yn gwybod amdanon ni.



Mewn 5 mlynedd

Gweithio ar draws Cymru a chefnogi rhwydwaith Aros i Fyny'n Hwyr.



Senedd Ieuenctid



Nawr

Sefydlu grŵp o bobl ifanc i gefnogi ein haelodau ni yn y Senedd Ieuenctid.



Mewn 3 blynedd

Bod yn rhan o'r cynlluniau ar gyfer beth sydd yn digwydd nesaf gyda'r Senedd Ieuenctid.



Mewn 5 mlynedd

Gwneud yn siŵr bod gan bobl ifanc anabl lais yn y Senedd Ieuenctid.



Rhwydwaith Gweithio ar y cyd gyda Rhieni



Nawr

Cael cyllid i redeg y rhwydwaith yma.



Mewn 3 blynedd

- Ysgrifennu canllaw ar weithio gyda rhieni ag anabledd dysgu.



- Cael rhywun i weithio ar y rhwydwaith yma yng ngogledd Cymru.



Mewn 5 mlynedd

Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i rannu'r canllaw yma.



Hawdd ei Ddeall Cymru



Nawr

Edrych ar ffyrdd i barhau i wella'r gwasanaeth.



Mewn 3 blynedd

Gwneud £25,000.



Mewn 5 mlynedd

Cael **cyrff cyhoeddus** i roi hyfforddiant Hawdd ei Ddeall i'w staff nhw.



Cyrff ydy **cyrff cyhoeddus** sydd yn cael arian gan Lywodraeth Cymru i redeg gwasanaethau i bobl yng Nghymru.

Rhedeg ein corff ni



Nawr

Gwneud yn siwr bod ein Bwrdd Ymddiriedolwyr ni yn cynrychioli ein haelodau ni.



Mewn 3 blynedd

- Cael gwahanol fathau o bobl i fod yn rhan o'n Bwrdd Ymddiriedolwyr ni.
- Edrych ar sut rydyn ni'n gwario arian ar redeg y corff. Er enghraifft, cost rhentu swyddfeydd.
- Edrych ar ein rheolau a'n canllawiau ni ar gyfer sut dylen ni redeg. A gwneud yn siŵr eu bod nhw'n gweithio'n dda.



Mewn 5 mlynedd

Edrych i weld os ydy'r ffordd rydyn ni'n cynllunio, rheoli a rhedeg y corff yn dda.

Ein partneriaid ni

Fe fyddwn ni'n gweithio gyda llawer o bartneriaid i wneud i hyn ddigwydd



Fe fyddwn ni'n gweithio gyda:

- Trydydd Sector. Cyrff fel elusennau grwpiau cymuned a mentrau cymdeithasol.



- Sector Cyhoeddus. Gwasanaethau fel yr heddlu, ysgol ac iechyd, Maen nhw'n cael eu talu gan y llywodraeth.



- Ein haelodau ni a phobl.



- Sector Preifat. Busnesau a chwmnïau sydd yn darparu gwasanaeth i wneud arian.



- Cyllidwyr.

Ein harian

Sut fyddwn ni'n cael arian i wneud y gwaith yma

Nawr	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2
Arian gan Lywodraeth Cymru	Mae gennym ni arian am 1 flwyddyn.	Ceisio cael arian am y 3 blynedd nesaf.
Codi arian	Codi £5000	Codi £10,000
Cyllido prosiectau	Cael cyllid o 3 blynedd ar gyfer Ffrindiau Gigiau a Rhwydwaith Gweithio ar y cyd gyda Rhieni.	
Hawdd ei Ddeall	Para i wneud arian o'r gwasanaeth.	Rhoi cynnig ar ffyrdd newydd o weitho i wneud rhagor o arian.

Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5
	Ceisio cael arian am y 3 blynedd nesaf.	
Codi £12,500	Codi £15,000	Codi £17,500
Gosod targedau ar gyfer faint o arian dylen ni fod yn ei wneud.		

Ein
staff
ni

Prif Swyddog

Prif Swyddog
Gweithredol

Rheolwr
Cyfathrebu

Rheolwr
Adnoddau Dynol

Swyddog
Cyfathrebu

Swyddog
Cyfathrebu

Swyddog
Gwybodaeth
Hygyrch

Swyddog
Gwybodaeth
Hygyrch

Swyddog
Cyllid

Gweinyddydd

Gweinyddydd

Swyddog
Cyllid

Gweinyddydd

Glanhawr

Gweithredol

